# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 19 Mai 2020

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod o'r **CABINET** o bell a gynhelir am **10.00 am DDYDD MAWRTH, 26 MAI 2020**.

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2020 (copi'n amgaeedig).

**5 CYMERADWYAETH GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL** (Tudalennau 13 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y ddau Achos Busnes sy'n ymwneud â'r Cyfnodau Dylunio Cynlluniau Amddiffyniad Arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn yn costio dros £1m (100% wedi ei gyllido gan grant Llywodraeth Cymru).

**6 ADRODDIAD CYLLID (STRATEGAETH ARIANNOL COVID 19)** (Tudalennau 41 - 52)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) sy'n nodi effaith ariannol COVID 19 ar gyllideb 2020/21 y Cyngor a'r strategaeth arfaethedig ar gyfer ymateb i'r argyfwng.

**7 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 53 - 56)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Hugh Evans**
**Bobby Feeley**
**Huw Hilditch-Roberts**
**Richard Mainon**
**Tony Thomas**
**Julian Thompson-Hill**
**Brian Jones**
**Mark Young**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2020 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

**Arsylwyr:** Meirick Davies, Martyn Holland, Alan James, Gwyneth Kensler, Peter Scott, Rhys Thomas, Graham Timms, ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ar Economi a Pharth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW) a Cyllid ac Eiddo (SG), Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cleientiaid (KN); Rheolwr Tîm – Cymorth Busnes (BC) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## TEYRNGED I'R CYNGHORYDD HUW JONES

Cyn dechrau'r cyfarfod talodd yr Arweinydd deyrnged i'r Cynghorydd Huw Jones a fu farw ar y penwythnos. Cyfeiriodd at y Cynghorydd Jones fel ffrind annwyl, cydweithiwr a chynghorydd uchel ei barch a roddodd Corwen wrth galon ei waith. Roedd y Cynghorydd Jones wedi bod yn aelod Cabinet rhwng 2012 - 2017 ac roedd parch mawr tuag ato ymhlith swyddogion ac aelodau a byddai colled fawr ar ei ôl. Roedd meddyliau gyda'i deulu a'i gymuned ar yr adeg drist hon. Safodd pawb a oedd yn bresennol mewn distawrwydd fel arwydd o barch.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Doedd dim ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Doedd dim cysylltiadau wedi'u datgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020 fel cofnod cywir.*

Ar y pwynt hwn cyfeiriodd yr Arweinydd at ei fwriad i amrywio trefn y rhaglen i hwyluso swyddogion allu mynychu’r cyfarfod.

**5 CAFFAEL SYSTEM GYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn proses gaffael gydweithredol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer system ariannol graidd i'r Cyngor.

Esboniwyd y rhesymeg y tu ôl i'r broses gydweithredol o ystyried y systemau etifeddiaeth tebyg a weithredir gan y ddau awdurdod a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datrysiadau presennol a meddalwedd heb gefnogaeth. Y bwriad oedd sefydlu fframwaith a fyddai'n caniatáu i'r naill gyngor gael eu datrysiad eu hunain neu ddatrysiad a rennir, naill ai'n cael ei gynnal gan gyflenwr neu ei gynnal ar y safle gan un neu fwy o'r cynghorau. Byddai'r fframwaith hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol Wrecsam a Sir y Fflint brynu eu system ariannol graidd eu hunain yn y dyfodol pe dymunent. Roedd manylion y goblygiadau ariannol wedi'u darparu yn yr adroddiad a ddylai arwain at gyflawni effeithlonrwydd i sicrhau bod y prosiect yn niwtral o ran cost dros amser; darparwyd manylion hefyd o ran trefniadau llywodraethu a rheoli prosiectau.

Roedd y Cabinet yn fodlon â chynnwys yr adroddiad ac nid oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i'w codi. Ymatebodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i gwestiwn gan y Cynghorydd Martyn Holland yn cadarnhau y byddai'r datrysiadau presennol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gaffael. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo y byddai dull graddol yn cael ei gymryd yn gyntaf i ddarparu system gyllid ar gyfer swyddogaethau craidd gyda cham dau yn cynnwys datrysiad cyflogres ac AD a system hollgynhwysol bosibl. Roedd profion marchnad wedi dangos bod datrysiadau yn bodoli eisoes ac roedd y cam nesaf yn cynnwys mynd trwy'r broses gaffael ac ystyried y canlyniadau.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –*

*(a) yn cymeradwyo cychwyn y broses gaffael ar gyfer system gyllid graidd fel y nodir yn yr adroddiad, a*

*(b) approves the commencement of the procurement for a core financial system as set out within the report, and*

*(b) yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Lesiant (Atodiad 1 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**6 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i brosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2020/21 fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (SIG) ac y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau trwy'r adroddiad ac esboniodd y cyllid sydd ar gael ar gyfer dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus. Cyfeiriwyd at waith y SIG wrth adolygu'r bidiau ar gyfer dyraniadau a darparwyd crynodeb o'u hargymhellion ynghyd ag ymhelaethiad pellach yn y cyfarfod a oedd yn cynnwys y ffynhonnell ariannu a argymhellir ar gyfer pob prosiect ynghyd â'r rhesymeg dros gefnogi'r prosiectau a dyraniadau penodol hynny.

Ystyriodd y Cabinet yr argymhellion y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at yr amodau tywydd garw diweddar a diolchodd i'r staff am eu gwaith caled yn hynny o beth. O ystyried y difrod storm i seilwaith y briffordd, holodd a oedd angen ailedrych ar y buddsoddiad yn yr ardal honno i ystyried y gwaith adfer oedd ei angen a sicrhau bod gwaith priffyrdd yn cael ei ariannu'n briodol a bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei arsylwi. Dywedodd yr Arweinydd fod y Prif Weinidog wedi galw uwchgynhadledd llifogydd brys gydag awdurdodau lleol (i'w mynychu gan yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Brian Jones) ac asiantaethau eraill a disgwylid y byddai cyllid ar gael i helpu i ddelio â'r canlyniad. Hefyd rhoddodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill sicrwydd y byddai gwaith adfer brys yn cael ei ariannu fel y bo'n briodol ac esboniodd y ffrydiau cyllido sydd ar gael, gan gynnwys y gronfa tywydd garw, ond cadarnhaodd ei bod yn debygol y byddai cynllun grant cenedlaethol y gellid ei ddefnyddio pe bai trothwy penodol yn cael ei gwrdd. O ran y dyraniad a argymhellir gan SIG ar gyfer priffyrdd, dyrannwyd £1.750m o wariant cyfalaf i'w flaenoriaethu fel y bo'n briodol gan y Gwasanaeth Priffyrdd ac efallai y bydd cyfleoedd pellach i gyflwyno cynigion am waith adfer hyd nes y dyrennir cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Ychwanegodd swyddogion, yn dilyn y gweithrediadau glanhau, y byddai asesiad o'r difrod yn cael ei gynnal - er y cydnabuwyd y byddai difrod wedi'i achosi i seilwaith y briffordd, roedd hi'n rhy gynnar i gadarnhau maint y difrod ac addasu'r dyraniadau cyfalaf o ran hynny. Dywedodd y Cynghorydd Brian Jones y byddai asesiad o'r difrod yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl a bod gwaith yn mynd rhagddo o ran cynllunio a chyfeirio adnoddau. Yng ngoleuni'r difrod storm diweddar i'r seilwaith priffyrdd a'r pwysau cyllido dilynol, cytunwyd i gynnwys yn y penderfyniad gyfeiriad at asesu'r difrod a nodi'r arbedion sy'n ofynnol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at Ddatblygu Marchnad y Frenhines a holodd gadarnhad cyllid allanol. Esboniwyd bod yr adeiladau wedi'u prynu gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru (£2.5m) ac arian Ewropeaidd (£2.5m). Er bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi dod i law, cadarnhawyd y cyllid Ewropeaidd yn amodol ar i'r Cyngor gyflawni camau datblygu allweddol ac roedd amserlenni wedi'u gosod at y diben hwnnw. Byddai adroddiad manwl ar y datblygiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Cabinet yn y dyfodol.

Croesawodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y cyllid ychwanegol a argymhellwyd ar gyfer cynnal a chadw cyfalaf ysgolion a oedd yn gynnydd ar y flwyddyn flaenorol.

Ymatebodd yr Aelodau Arweiniol i faterion a godwyd gan gynghorwyr nad ydynt yn aelodau Cabinet fel a ganlyn –

- Roedd y Cynghorydd Martyn Holland yn falch o nodi'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer atgyweirio pontydd o ystyried eu pwysigrwydd, yn enwedig i gymunedau gwledig, a gofynnodd i'r mater gael ei godi yn y cyfarfod sydd i ddod gyda Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i'w bryderon ynghylch tyllau yn y ffordd, dywedodd y Cynghorydd Brian Jones fod gwaith yn mynd rhagddo i ddod o hyd i ateb mwy parhaol ac yn ychwanegol at yr ymweliadau blynyddol sydd ar ddod â'r Grwpiau Ardaloedd Aelodau i drafod cynnal a chadw ffyrdd, roedd gweithdy aelodau hefyd yn cael ei drefnu ar faterion priffyrdd.
- Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y byddai Ysgol Llanfair DC (ysgol newydd) yn agor yn fuan ac y byddai'n gallu derbyn mwy o ddisgyblion - nid oedd yn llawn
- Esboniodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill delerau benthyca darbodus y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad gan gynghori bod £100k ar gyfer priffyrdd wedi'i neilltuo fel rhan o ddyraniad Cynllun Corfforaethol 2020/21 a fyddai'n caniatáu £1.750m o wariant cyfalaf, a'r byddai'r rhaglen o ailosod llusernau LED yn golygu cymryd benthyciad Salix am hyd at £200k dros chwe blynedd a fyddai'n hunangyllidol gydag arbedion o'r costau ynni a gronnwyd dros y tymor.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *Cefnogi'r prosiectau y manylir arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2020/21 a'u hargymell i'r Cyngor llawn, a*

(b) *Bod y Cabinet yn gofyn i swyddogion yn y Gwasanaeth Priffyrdd gynnal asesiad o'r difrod a achoswyd i'r rhwydwaith gan y stormydd diweddar er mwyn nodi maint y cyllid pellach sydd ei angen.*

## 7 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2019/20 oedd £198.538m (£194.418m yn 2018/19)
- rhagwelwyd gorwariant o £1.614m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- tynnwyd sylw at risgiau a thybiaethau cyfredol sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- arbedion ac effeithlonrwydd gofynnol manwl o £5.672m gyda dyraniad cymeradwy o £616k o'r Gronfa Cyflawni Cynilion Wrth Gefn i wneud iawn am arbedion anhysbys o ran cyflawniad (tua 11% o gyfanswm yr arbedion a nodwyd)
- darparwyd diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo'r canllawiau diwygiedig sy'n ymwneud â meini prawf Gostyngiad Cyfraddau Busnes a chymeradwyo dileu Cyfraddau Busnes gwerth cyfanswm o £57k.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at y costau ychwanegol a ddeilliodd o'r difrod storm diweddar yn y sir, gan gynnwys digwyddiadau llifogydd, o ran gwaith adfer ac amddiffyn rhag llifogydd a gofynnodd i'r costau hynny gael eu nodi yn yr adroddiadau cyllid rheolaidd i'r Cabinet yn y dyfodol fel rhai risg hysbys. Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo yn ogystal ag phwysau o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd, byddai effeithiau ar feysydd gwasanaeth eraill, megis gwasanaethau hamdden a chymdeithasol, a byddai angen cynnal asesiad o'r effeithiau ehangach hynny hefyd. Cytunwyd y dylid cynnwys effaith y difrod storm fel rhan o adroddiad cyllid rheolaidd y Cabinet yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a osodwyd ar gyfer 2019/20 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni;*

*(b) cymeradwyo'r canllawiau diwygiedig sy'n ymwneud â meini prawf Gostyngiad Cyfraddau Busnes sydd i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor a bod y matrics sgorio tryloyw yn cael ei gyflwyno ar unwaith fel y manylir yn Atodiad 6 ac Adran 6.2 yr adroddiad, a*

*(c) chymeradwyo dileu Cyfraddau Busnes fel y manylir arno yn Atodiad 7 ac Adran 6.3 o'r adroddiad.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen gwaith i’r dyfodol y Cabinet i’w ystyried a nododd yr aelodau y byddai Cytundeb Llywodraethu 2 Cais Twf Gogledd Cymru a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill yn debygol o gael ei oedi ac y byddai’n cael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau cyn mynd ir Cabinet. Nodwyd hefyd y byddai Datblygiad Marchnad y Frenhines yn ymddangos fel eitem ar raglen y Cabinet yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid nodi rhaglen gwaith i’r dyfodol y Cabinet.*

## 9 CAFFAEL GOFAL A CHEFNOGAETH MEWN CYNLLUN TAI GOFAL YCHWANEGOL I BOBL HŶN AC ANABLEDD CYMHLETH

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgymryd â'r broses gaffael ar gyfer tendro gofal a chefnogaeth i'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol, Awel y Dyffryn, Dinbych.

Roedd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn wedi'i ddatblygu gan y Cyngor mewn partneriaeth â Grŵp Tai Cynefin a rhagwelwyd y byddai'r cynllun yn barod ar gyfer 1 Medi 2020. Cynigiwyd cynnal dau ymarfer tendro ar gyfer caffael gwasanaethau gofal a chefnogaeth ar gyfer 66 o unedau pobl hŷn ac 8 uned anabledd cymhleth sydd wedi'u lleoli ar y safle i ddarparu darpariaeth gofal 24 awr y dydd, 365 diwrnod o'r flwyddyn yn unol â Chontract Gofal Cartref Rhanbarthol Sir

Ddinbych a gofynion llywodraethu eraill. Byddai dau dendr ar wahân yn cael eu rhedeg trwy'r fframweithiau priodol ar gyfer y ddwy elfen o gefnogaeth yn y cynllun gyda chanlyniad pob tendr yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet i'w gymeradwyo'n derfynol. Roedd cyfeiriad at amcangyfrif o'r costau tendro a manylion pellach y contract wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Cefnogodd y Cabinet y cynllun i ddarparu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardal ac ystyriwyd manylion y broses gaffael arfaethedig.

Ymatebodd swyddogion i gwestiynau a sylwadau gan aelodau fel a ganlyn –

- o ystyried y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â meddygon lleol, gofynnodd y Cynghorydd Mark Young am sicrwydd ynghylch ymgynghori priodol a chadarnhawyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn mynychu Grŵp Cyflenwi Gwasanaethau'r prosiect a bod meddygfeydd hefyd yn rhan o'r broses honno.
- rhagwelwyd y byddai'r darparwr gofal Pobl Hŷn yn cael ei benodi erbyn Mai / Mehefin a bod y darparwr Anabledd Cymhleth yn cael ei benodi erbyn Gorffennaf / Awst
- roedd marchnad ddarpariaeth gymysg yn Nhinbych a byddai'r cynllun yn ceisio gwasanaethu Dinbych a'r ardaloedd cyfagos yn gyntaf gyda gwaith pellach yn parhau o ran y cynnig iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol yn yr ardal.
- rhoddwyd sicrwydd bod y gallu i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg yn fater blaenoriaeth ac yn rhan o'r gofynion contract a fyddai'n cael eu gwerthuso trwy'r broses dendro. Fodd bynnag, roedd heriau o ran recriwtio ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r uned datblygu gweithlu gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth Cymraeg.
- mewn perthynas â chyfleoedd staff, cadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod holl staff y cyngor yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg ac i wella a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a darparwyd cyllid at y diben hwnnw. Nid oedd problemau gyda recriwtio wedi'u cyfyngu i Sir Ddinbych gydag awdurdodau cyfagos hefyd yn cael anawsterau yn hynny o beth
- o ran digonolrwydd lefelau staffio gyda'r nos, byddai Grŵp Cynefin yn darparu gwasanaeth o fath 'concierge' gyda pherson ar y safle i ddarparu cymorth rheoli tai 24/7 yn ychwanegol at y tîm gofal ar y safle. Cynlluniwyd a darparwyd gofal yn unol â'r angen a nodwyd ar y pryd ac o ganlyniad byddai nifer y staff sydd eu hangen yn amrywio i ddarparu ar gyfer yr anghenion newidiol hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo ymgymryd â'r broses gaffael ar gyfer gofal a chefnogaeth fel y manylir yn yr adroddiad gyda chanlyniad pob tendr yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet i'w gymeradwyo'n derfynol.*

Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.) gohiriwyd y cyfarfod am egwyl.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 10 CYMERADWYO CYTUNDEB BYW Â CHYMORTH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad cyfrinachol ynghylch canlyniad yr ymarfer caffael ar gyfer Cytundeb Byw â Chymorth (Fframwaith) Gogledd Cymru ac argymhellodd dderbyn a gwrthod tendrau.

Arweiniwyd yr ymarfer caffael gan Gyngor Sir Dinbych ar ran chwe Chyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac roedd yn cynnwys trydydd ymarfer caffael i ddarparu cyfleoedd i ddarparwyr newydd sy'n dymuno darparu Gwasanaethau Byw â Chymorth ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru ac ar gyfer darparwyr cymeradwy Gwasanaethau Gofal Cartref presennol i ddarparu Gwasanaethau Byw â Chymorth hefyd. Darparwyd manylion y broses gaffael gan arwain at argymhelliad i dderbyn tendrau 35 o gyflenwyr ac i wrthod tendrau 6 chyflenwr am y rhesymau y manylir arnynt yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet yr ymarfer caffael a chanlyniad y broses honno. Ymatebodd swyddogion i gwestiynau ynghylch yr argymhelliad o wrthod tendrau nad oeddent yn cwrdd â gofynion cymwysterau ac ansawdd yn dilyn gwerthuso.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cymeradwyo derbyn tendrau'r 35 cyflenwr a gwrthod tendrau 6 chyflenwr am y rhesymau y manylwyd arnynt ac fel y nodwyd yn yr Adroddiad Argymhelliad Dyfarnu Cytundeb Fframwaith (Atodiad 1 i'r adroddiad), a*

*(b) yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall a chymryd i ystyriaeth y Ffurflen Gomisiynu wreiddiol (Atodiad 2 i'r adroddiad), yr Asesiad o Effaith ar Lesiant (Atodiad 3 i'r adroddiad) a'r Asesiad o Effaith ar Brosesu Data ar gyfer y tendr Gofal Cartref. (Atodiad 4 i'r adroddiad). Mae'r tendr hwn yn rhan o'r llif gwaith gwreiddiol hwnnw.*

## 11 CONTRACT IS-RANBARTHOL (CSDD/CBSC) – GWASANAETHAU RHANNU BYWYDAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu un contract ar gyfer darparu Gwasanaethau Rhannu Bywydau ledled Conwy a Sir Ddinbych i'r darparwr llwyddiannus yn dilyn ymarfer tendro.

Roedd y gwasanaeth yn galluogi ystod o ddinasyddion a oedd wedi cael eu hasesu i fod angen cymorth i fyw bywydau annibynnol, gan leihau mynediad i'r ysbyty neu ofal preswyl a chefnogi gofalwyr anffurfiol trwy ddarparu seibiant rheolaidd. Roedd oedolion cymwys yn cael cynnig lleoliadau tymor hir / tymor byr yng nghartrefi gofalwr hunangyflogedig Rhannu Bywydau a hyfforddwyd ac a recriwtiwyd yn benodol ac a gefnogwyd gan y darparwr Rhannu Bywydau. Roedd manylion ystyriaethau ariannol a sail y contract wedi'u darparu ynghyd â'r broses gaffael a'r canlyniadau.

Ystyriodd y Cabinet yr ymarfer caffael diweddar a chanlyniad y broses honno ynghyd ag argymhellion a rhesymau'r adroddiad ac felly –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a)* *cytuno i ddyfarnu'r contract ar gyfer darparu Gwasanaethau Rhannu Bywydau i'r darparwr a enwir fel y manylir yn yr adroddiad am gyfnod o saith mlynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am gyfnod arall o dair blynedd, a*

*(b)* *cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried Asesiad o Effaith ar Lesiant Rhif 688 (Atodiad 3 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 o'r gloch.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 26 Mai 2020 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Julian Thompson Hill |
| **Awdur yr Adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo |
| **Teitl** | Cymeradwyo Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi manylion dau brosiect sy'n cael eu hariannu gan grant sydd wedi cael eu hadolygu gan y GBS ac sydd wedi'u hargymell i gael eu cymeradwyo at y cam dylunio yn unig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth ar gyfer dau Achos Busnes sy'n ymwneud â Chamau Dylunio Cynlluniau Amddiffynfeydd Arfordirol yn y Rhyl a Phrestatyn, gan y bydd y ddau gam dylunio yn costio dros £1m (wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau yn cymeradwyo cam dylunio Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Prestatyn, a fydd yn cael ei ariannu 100% trwy grant gan Lywodraeth Cymru, ar y ddealltwriaeth nad oes yna risg i'r Cyngor ac nad yw hyn yn ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu ac ariannu pellach (gweler Adran 4.2 ac Atodiad 1).

3.2 Bod Aelodau yn cymeradwyo cam dylunio Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol y Rhyl, a fydd yn cael ei ariannu 100% trwy grant gan Lywodraeth Cymru, ar y ddealltwriaeth nad oes yna risg i'r Cyngor ac nad yw hyn yn ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu ac ariannu pellach (gweler Adran 4.3 ac Atodiad 2).

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r GBS wedi adolygu'r ddau gynllun ac yn hapus i argymell eu cymeradwyo yn seiliedig ar ddim risg ariannol i'r awdurdod, ac ar yr amod nad yw bwrw ymlaen â'r cam dylunio yn ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu a rhagor o gyllid. Mae'r cynlluniau wedi'u crynhoi isod ac mae manylion yn Atodiad 1 a 2.

**4.2 Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Prestatyn**

Byddai'r cynllun yn darparu safon briodol o amddiffyniad yn erbyn digwyddiad 1 mewn 200 mlynedd er mwyn gwarchod 2,045 o eiddo preswyl a 62 o eiddo nad ydynt yn rhai preswyl, ac amddiffyniad ychwanegol yn erbyn y cynnydd disgwyliedig yn lefel y môr dros y ganrif nesaf. Mae angen cymeradwyaeth i ddechrau dylunio a datblygu'r cynllun, ac amcangyfrif o'r gost yw £1,487,180. Gwnaed cais am grant i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen yma ac mae disgwyl y bydd LlC yn ei ariannu 100%.

**4.3 Cynllun Amddiffyniad Arfordirol Canol Rhyl**

Byddai'r cynllun yn darparu safon briodol o amddiffyniad yn erbyn digwyddiad 1 mewn 200 mlynedd er mwyn gwarchod 548 o eiddo preswyl a 44 o eiddo nad ydynt yn rhai preswyl, ac amddiffyniad ychwanegol yn erbyn y cynnydd disgwyliedig yn lefel y môr dros y ganrif nesaf. Mae angen cymeradwyaeth i ddechrau dylunio a datblygu'r cynllun, ac amcangyfrif o'r gost yw £2,550,950. Gwnaed cais am grant i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr elfen yma ac mae disgwyl y bydd LlC yn ei ariannu 100%.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'n rhan allweddol o gyflawni elfen Amgylcheddol y Cynllun Corfforaethol presennol i leihau nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae manylion am yr effaith ariannol yn yr adroddiad (gweler Adran 4).

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Ni chwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les eto.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Fe ymgynghorwyd yn llawn â'r Aelod Arweiniol, swyddog bioamrywiaeth y Cyngor, Swyddog Adran 151, Landlord y Sir, Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Buddsoddi Strategol wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Rhoddir cefnogaeth lawn i'r cynigion i gymeradwyo camau dylunio'r rhannau sydd wedi'u hariannu 100% gan grant, ar y ddealltwriaeth nad oes yna berygl i'r Cyngor ac nad yw'n ymrwymo'r awdurdod i'r cam adeiladu a rhagor o gyllid. Bydd angen gwneud penderfyniadau am gyllid yn y dyfodol pan fydd effaith ariannol llawn yr argyfwng pandemig presennol yn fwy amlwg.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r Achosion Busnes GBS ynghlwm yn manylu'r risgiau a dulliau lliniaru.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

S2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

## STRATEGIC INVESTMENT GROUP

# BUSINESS CASE – CAPITAL INVESTMENT

*This Business Case provides justification for undertaking a project. The completed form will be reviewed by the Strategic Investment Group who will make a recommendation to Council whether the bid should be approved and included within the Capital Plan. All sections should be completed and evidence of costs will need to be supplied.*

*For details of Strategic Investment Group meetings and deadlines for the submission of this form, please contact Richard Humphreys, Capital & Technical Finance Team on ext 6144.*

| | |
|---|---|
| **Project Name:** | **Central Prestatyn Coastal Defence Scheme** |
| **Project Reference:** | |
| **Project Manager:** | **Wayne Hope** |
| **Workstream:** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Head of Service/Project Sponsor** | Tony Ward | **Lead member:** | Cllr Brian Jones |
| **Service:** | Highways, Facilities and Environmental Services | **LM Portfolio:** | Lead Member for Waste, Transport and the Environment |
| **Form completed by:** | Wayne Hope | **Date:** | 17th April 2020 |
| **Service Accountant:** | Richard Humphreys | **Date:** | |

## PROJECT TYPE

*Please categorise your project type. Mark* ***one*** *box only.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **SMALL** | | **MEDIUM** | | **LARGE** | **x** |

| | |
|---|---|
| **DECISION SOUGHT FROM SIG:** | 1. That SIG approve the design stage of the Central Prestatyn Coastal Defence Scheme, which will be 100% grant funded by the Welsh Government, on the understanding that there is no risk to the Council and that this does not commit the authority to the construction stage and further funding.<br>2. That SIG review and seek comments on the overall proposals. |

| | |
|---|---|
| | 3. That SIG recognise that the funding for the construction phase will be the subject to a further business case and the relevant approvals and this decision on the design does not presuppose approval by SIG of the construction phase. |

# EXECUTIVE SUMMARY

Highlights the key points in the Business Case to include:-

- what the project will achieve / important benefits
- estimated costs
- how the project will be funded

The Central Prestatyn coastline is defended by hard coastal defences comprising of predominately concrete stepped revetments, set back wave overtopping walls and an asphalt toe and a wide promenade. A sand beach and rock groyne field fronts the hard defences, offering some protection to the toe of the structures. An asset condition survey identified that the existing defences are in no better than fair condition, extending to poor towards the west of the frontage, with a particularly poor section of defence fronting Rhyl golf course. These coastal defences are deteriorating and once the defences fail and access to the promenade and sea front is lost there will be a significant impact on the tourism economy of both Rhyl and Prestatyn. Holiday makers and day trippers will cease to travel to this seaside town and support the Wales tourism economy. Furthermore, wave overtopping of defences at the eastern and western ends of the proposed scheme location would lead to flooding of both residential and commercial property in the near future as sea levels rise, impacting on both the local community and the tourism economy. The scheme would provide a 1 in 200 year standard of protection to 2,045 residential and 62 non-residential properties plus additional protection against predicted sea level rise for the next 100 years.

An Outline Business Case (OBC) has been carried out and shows that the preferred option will cost an estimated £16,718,510, which includes design and development costs of £1,487,180 and construction costs of £15,231,330.

The design and development phase of the project will be 100% funded by the Welsh Government. There will be no risk to the Council in the event that the scheme doesn’t progress beyond the design stage, in terms of the Welsh Government seeking repayment of grant funding.

Regarding the construction stage of the scheme, it might be possible to carry the work out in phases, thereby spreading the cost over a number of years. The approval for construction phase costs will, if appropriate, be sought from SIG, Cabinet and Council in due course.

## BUSINESS OPTIONS

Analysis and reasoned recommendation for the base business options of: do nothing / do the minimal or do something

| Option title: | Do nothing – maintain the existing situation / Do minimum |
|---|---|

**Please provide brief details:**

The 2013 coastal flooding event and subsequent coastal storms and overtopping events serve as a stark reminder of the vulnerability of the coastal defences at this location and the population living behind them. The 'do minimum' option will inevitably result in further flooding, particularly in light of predictions for sea level rise and the increased frequency and severity of storms due to climate change. This would have a significant detrimental impact on the future viability of Prestatyn as a residential area and centre for tourism.

As the Coast Protection Authority, the Council has a duty to prevent coastal erosion where the Shoreline Management Plan policy is to 'Hold the Line' and a more fundamental duty of care regarding the management of flood risk where coastal erosion could lead to loss of life.

The long term costs of recovering from floods, including repairs to Council assets (buildings and roads) and repairs to the coastal defences, are likely to outweigh the Council's contribution to a capital project in the medium to long term.

**Please mark with an X how this option compares with the preferred option in terms of Cost, Time, Quality and Benefits:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costs** | Costs more | | **Time** | Takes longer to deliver | x |
| | Costs the same | x | | Takes the same to deliver | |
| | Costs less | | | Is quicker to deliver | |
| **Quality** | Improves the quality | | **Benefits** | Improves benefits | |
| | Is the same quality | | | No impact on benefits | |
| | Is a lower quality | x | | Worsens benefits | x |

**What is the main reason this option has not been selected?**

The 'do nothing' option will cost the Council more in the long term.

| Option title: | Do Something: Carry out the Design of the Central Prestatyn Coastal Defence Scheme |
|---|---|

**Please provide brief details:**

Carry out the design of the Central Prestatyn coastal defence scheme as described in the Executive Summary.

**Please mark with an X how this option compares with the preferred option in terms of Cost, Time, Quality and Benefits:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costs** | Costs more | | **Time** | Takes longer to deliver | |
| | Costs the same | x | | Takes the same to deliver | |
| | Costs less | | | Is quicker to deliver | x |
| **Quality** | Improves the quality | x | **Benefits** | Improves benefits | x |
| | Is the same quality | | | No impact on benefits | |
| | Is a lower quality | | | Worsens benefits | |

**What is the main reason this option has not been selected?**

Investment in a coastal defence scheme will reduce costs for the Council in the long term, protect a large number of residents from coastal flood risk and the impacts of climate change and ensure the sustainability of Prestatyn as place to live and work and a tourist destination.

## EXPECTED BENEFITS

The benefits that the project will deliver expressed in measurable terms against the situation as it exists prior to the project

| |
|---|
| Reduced risk from coastal flooding as a consequence of coastal erosion and sea level rise for around 2,100 properties in Prestatyn. |

## EXPECTED DIS-BENEFITS

Outcomes perceived as negative by one or more stakeholders

| |
|---|
| None |

## TIMESCALE

Over which the project will run (summary of the Project Plan) and the period over which the benefits will be realised

| Date | Milestone |
|---|---|
| 11th May 2020 | Commence detailed design |
| 7th May 2021 | Submit Full Business Case to Welsh Government for approval |
| 14th Feb 2022 | Commence Construction Phase, subject to SIG, Cabinet & Council approval |
| 29th March 2024 | Complete Construction Phase (Project Completion) |

## CAPITAL COSTS – CONSTRUCTION PROJECTS

**COMPLETE ALL THREE TABLES BELOW FOR CONSTRUCTION PROJECTS**
**LEAVE BLANK/DELETE SECTION FOR BUSINESS DEVELOPMENT PROJECTS**

| **Please provide details of any capital funding that has already been spent on the project:** | |
|---|---|
| **Enter details of cost element below:** | **Total** |
| Feasibility (surveys, market research, etc) | £245,000 |
| Client side project management | £20,000 |
| | |
| **TOTAL** | **£265,000** |

| **Please provide details of the capital funding requirement (not including amount already spent):** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Enter details of cost element below:** | **2020/21** | **2021/22** | **Future Years** | **All Years Total** |
| Internal staff costs | £94,747 | | | £94,747 |
| Design & Development Costs | £1,392,433 | | | £1,392,433 |
| | | | | |
| **TOTAL** | £1,487,180 | | | £1,487,180 |

| Please provide details of proposed capital funding sources | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enter details of funding source** | **Status:** | **2020/21** | **2021/22** | **Future Years** | **TOTAL** |
| WG Grant @ 100% (Design) | Applied | £1,487,180 | | | £1,487,180 |
| | | | | | |
| **TOTAL** | | £1,487,180 | | | £1,487,180 |

## REVENUE COST IMPACT

### TO BE COMPLETED FOR ALL PROJECTS

*In considering whether a project should be developed due regard should be made to the potential impact on revenue budgets.*

| If the activity will result in a requirement for additional revenue funding, please provide details below: | | | |
|---|---|---|---|
| **What is the impact of this project in terms of the annual revenue requirement for:** | **Existing Revenue Budget** | **Post-project Revenue Budget** | **Increase/ Decrease** |
| **staff costs (salaries and associated)** | | | |
| **energy costs (heating, lighting, ICT, etc)** | | | |
| **property maintenance and servicing costs** | | | |
| **other property related costs (rental, insurance, etc)** | | | |
| **ongoing ICT costs (licences, etc)** | | | |
| **mileage of Denbighshire fleet vehicles** | | | |
| **mileage for business travel by Denbighshire employees using their personal vehicles** | | | |
| **OTHER (please enter)** | | | |
| **OTHER (please enter)** | | | |
| **OVERALL REVENUE REQUIREMENT** | | | |

*Please provide brief details of the revenue impact of this project:*

- *Where revenue savings are forecast, you should detail what is proposed for the saving (e.g. reduction of an existing revenue budget, re-allocation of revenue to alternative services area, etc)*
- *Where revenue increases are forecast, you should provide details of how the revenue shortfall will be addressed. In this instance you should also append a three year surplus/deficit forecast.*
- *Details of any one-off revenue cost requirements that may be required post-project implementation (e.g. recruitment, redundancies, etc). DO NOT include any costs detailed in the capital section of this Business Case*

No significant revenue implications expected, but will be examined further during development of Full Business Case.

## PROJECT MANAGEMENT

*Please provide details of proposed project management – Establishment of Project Board etc*

The scheme is currently being overseen by the Coastal Defence Schemes Project Board, Project Sponsor Tony Ward.

## STATUTORY REQUIREMENTS / HEALTH & SAFETY

*This section should identify how the activity will help Denbighshire meet any of its statutory requirements. Please include any Health & Safety Issues that the activity will address in this section. Please leave blank if not applicable.*

## CARBON MANAGEMENT IMPACT

*Please consult with Denbighshire's Principal Energy Manager before completing this section.*

*Denbighshire has committed to reducing its carbon emissions by 15% by 2020. The Business Case requires you to make a forecast for the anticipated carbon emissions impact of the project. Please mark a cross in the appropriate box.*

| Forecasts: | Annual (current) | Carbon Equivalent | Annual (Post Project) | Carbon Equivalent | Carbon Variance |
|---|---|---|---|---|---|
| **Energy consumption: (UNIT = kWh)** | | | | | |
| **Mileage of Denbighshire Fleet vehicles: (UNIT = miles travelled)** | | | | | |
| **Tonnes of waste produced going to landfill: (UNIT = tonnes)** | | | | | |
| **Tonnes of waste produced being recycled: (UNIT = tonnes)** | | | | | |
| **Mileage of Business Travel (personal vehicles): (UNIT = miles travelled)** | | | | | |
| **TOTAL CARBON EMISSIONS** | | | | | |

*Please provide brief details of the carbon impact of this project, and detail specific actions that will be taken to reduce carbon emissions. If carbon emissions are expected to increase as a result of this project, please provide details of proposed actions to compensate for this increase in other areas of the Service's activity.*

| |
|---|
| The overall carbon impact of the project is likely to be neutral. However, opportunities will be explored during the development of the project to achieve a carbon negative impact. |

## BIODIVERSITY IMPACT

*Please consult with Denbighshire's Biodiversity Officer before completing this section:*

*joel.walley@denbighshire.gov.uk*

*The Council has a statutory duty to ensure compliance and enforcement of the habitats regulations (as amended in 2007) and the NERC Biodiversity Duty (2006). At this pre-feasibility stage, what is the anticipated impact on biodiversity of the project. Please mark a cross in the appropriate box.*

| Will this project impact on a habitat that supports living organisms (plant or animal)? | Yes | | No | |
|---|---|---|---|---|

*If you have answered yes to the above question, please complete all the following biodiversity sections. If answered no please leave blank*

| THREATENED/PROTECTED SPECIES<br>Will this project impact on any protected or threatened species as defined in Denbighshire's Local Biodiversity Action Plan (LBAP)? | Yes | | No | |
|---|---|---|---|---|

| ALL SPECIES (including threatened/protected) Forecasts: | Current number | Post-project number | Variance (+/-) |
|---|---|---|---|
| Number of plant species present: | | | |
| Number of animal species present: | | | |
| TOTAL NUMBER OF SPECIES PRESENT | | | |

*Please provide brief details of the action you will be taking in association with this project to protect or enhance biodiversity. Specific reference should be made to the mitigation strategy if the project impacts on any protected or threatened species as defined in Denbighshire's Local Biodiversity Action Plan (LBAP).*

The Council's biodiversity officer was consulted during the preparation of the Outline Business Case for the project and will be involved further during the design and development phase.

## MAJOR RISKS TO THE PROJECT

A summary of the key risks associated with the project together with the likely impact and plans should they occur (*Please also add to your project risk register*)

| Key Risk | Likely Impact | Mitigating Action |
|---|---|---|
| Welsh Government won't approve design and Full Business Case | Very High | Continue dialogue with Welsh Government officials during the design and development stage of the project. |
